

## Polisi Amgylcheddol Cyngor Cymuned Pennal

1. Mae'r datganiad hwn yn berthnasol i holl dir, eiddo a gweithgareddau o fewn rheolaeth Cyngor Cymuned Pennal.
2. Mae Cyngor Cymuned Pennal yn ymrwymo i warchod a gwella'r amgylchedd ac i leihau effeithiau amgylcheddol a all ddeillio o'u gweithgareddau.
3. Bydd Cyngor Cymuned Pennal yn rheoli ei gweithrediadau mewn modd a fydd yn amgylcheddol gynaliadwy.
4. Er mwyn cyflawni'r nod bydd rhaid i'r Cyngor ddilyn yr amcanion:
  - I hyrwyddo polisïau ac ymarfer polisïau rheolaeth amgylcheddol pan fo'n briodol ;
  - Fel lleiafswm, i gydymffurfio gydag anghenion deddfwriaethau perthnasol;
  - I fod yn effeithlon a chyfrifol yn amgylcheddol am ddefnydd dŵr ac ynni;
  - I hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol o wasanaethau a nwyddau;
  - I leihau cynhyrchiad gwastraff i'r hyn sydd yn ymarferol ac i ail ddefnyddio neu ailgylchu ble mae'n briodol.
  - I leihau, a ble mae'n bosibl, i osgoi llygredd;
  - I godi ymwybyddiaeth aelodau Cyngor Cymuned Pennal o effeithiau amgylcheddol yn deillio o weithgareddau a pherfformiad ac i hyrwyddo ymarfer da unigolion.
- 5 Tra mae Cyngor Cymuned Pennal yn derbyn y prif gyfrifoldeb am weithredu'r polisi hwn, mae unigolion yn chwarae rhan bwysig wrth gydweithio gyda'r sawl sydd yn gyfrifol am warchod yr amgylchedd. Mae'n ofynnol ar unigolion i gadw ar y rheolau a'r anghenion a wneir o dan lywodraeth y polisi hwn.

Arwyddwyd gan :